42. Mae gan ward etholiadol bresennol **Sanclêr a Llansteffan** yr enw Cymraeg presennol **Sanclêr a Llansteffan**, a'r enw Saesneg presennol **St Clears and Llansteffan.** Cynigiodd y Comisiwn yr enw 'Sanclêr Llansteffan' yn y Cynigion Drafft. Fodd bynnag, mae polisi enwi'r Comisiwn yn datgan y dylai enwau sy'n rhestrau o leoedd o fewn ward etholiadol gael eu rhestru yn nhrefn yr wyddor. Felly, mae'r Comisiwn yn argymell yr enw 'Llansteffan Sanclêr'. Mae'r Comisiwn yn argymell rhoi'r enw unigol **Llansteffan Sanclêr** i'r ward etholiadol. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Llansteffan a Llan-y-bri o blaid cadw'r ddau enw presennol. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth hefyd o blaid yr enw unigol arfaethedig. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg mai St Clears yw'r ffurf Saesneg yn Rhestr Enwau Lleoedd Safonol Cymru, ond mae'n cytuno â'r enw unigol argymelledig.

43. Mae gan ward etholiadol bresennol **Swiss Valley** yr enw Cymraeg presennol **Swiss Valley**, a'r enw Saesneg presennol **Swiss Valley.** Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw Cymraeg **Dyffryn y Swistir**, a chadw'r enw Saesneg **Swiss Valley** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau argymelledig. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg mai Dyffryn y Swistir yw'r ffurf Gymraeg safonol yn Rhestr Enwau Lleoedd Safonol Cymru.

44. Mae gan ward etholiadol bresennol **Tre-lech** yr enw Cymraeg presennol **Tre-lech**, a'r enw Saesneg presennol **Trelech**. Mae'r Comisiwn yn argymell rhoi'r enw unigol **Tre-lech** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

45. Mae gan ward etholiadol bresennol **Trimsaran** yr enw Cymraeg presennol **Trimsaran**, a'r enw Saesneg presennol **Trimsaran**. Mae'r Comisiwn yn argymell rhoi'r enw unigol **Trimsaran** i'r ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw argymelledig.

46. Mae gan ward etholiadol bresennol **Tyisha** yr enw Cymraeg presennol **Tyisha**, a'r enw Saesneg presennol **Tyisha**. Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw Cymraeg **Tyisa**, a chadw'r enw Saesneg **Tyisha** ar gyfer y ward etholiadol. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaeth gan Gyngor Tref Llanelli yn gofyn i'r enw Tyisha gael ei gadw gan na fyddai preswylwyr sy'n adnabod yr ardal fel Tyisha yn uniaethu â'r enw argymelledig Tyisa. Mae'r Panel Safoni Enwau Lleoedd yn argymell Tyisa fel y ffurf safonol, gan gydnabod bod y ffurf fwy tafodieithol Tyisha yn cael ei defnyddio'n helaeth. Maen nhw'n bwriadu i'r Panel Safoni Enwau Lleoedd adolygu'r enw hwn yn y dyfodol.

47. Mae gan ward etholiadol bresennol **Hendy-gwyn ar Daf** yr enw Cymraeg presennol **Hendy-gwyn ar Daf**, a'r enw Saesneg presennol **Whitland**. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r enw Cymraeg **Hendy-gwyn ar Daf**, a'r enw Saesneg **Whitland** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enwau argymelledig.

### Wardiau Etholiadol Argymelledig

48. Mae'r Comisiwn wedi ystyried newidiadau i'r wardiau etholiadol sy'n weddill. Rhoddir manylion y trefniadau etholiadol presennol yn Atodiad 1. Rhoddir trefniadau argymelledig y Comisiwn yn Atodiad 2.

## BYNEA A LLWYNHENDY

Mae ward etholiadol bresennol Bynea yn cynnwys ward Bynea yng nghymuned Llanelli Wledig. Mae gan y ward etholiadol 3,591 o etholwyr a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 10% yn is na'r cyfartaledd sirol, sef 1,994. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 3,936 o etholwyr a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 6% yn is na'r cyfartaledd sirol, sef 2,102.

50. Mae ward etholiadol bresennol Llwynhendy yn cynnwys ward Pemberton yng nghymuned Llanelli Wledig. Mae gan y ward etholiadol 3,166 o etholwyr a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 21% yn is na'r cyfartaledd sirol, sef 1,994. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 3,501 o etholwyr a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 17% yn is na'r cyfartaledd sirol, sef 2,102.

| Enw | Etholwyr 2025 | Cynghorwyr | Cymhareb 2025 | Amrywiant | Etholwyr 2030 | Cymhareb 2030 | Amrywiant 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bynea | 3,591 | 2 | 1,796 | -10% | 3,936 | 1,968 | -6% |
| Llwynhendy | 3,166 | 2 | 1,583 | -21% | 3,501 | 1,751 | -17% |
| | | | | | | | |

### Cynigion Drafft

51. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn gyfuno wardiau etholiadol Bynea a Llwynhendy i ffurfio ward etholiadol.

### Cynrychiolaethau

52. Cafodd y Comisiwn ddwy gynrychiolaeth ynglŷn â wardiau etholiadol Bynea a Llwynhendy yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft gan un Cynghorydd Sir a chynrychiolaeth ar y cyd gan ddau Gynghorydd Sir. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

### Argymhellion ffiniau Wardiau Etholiadol

53. Mae'r Comisiwn yn argymell gwneud un newid i'r ffiniau wardiau etholiadol presennol, sy'n arwain at un yn llai o gynghorwyr sir ar gyfer yr ardal:

- Cyfuno wardiau etholiadol Bynea a Llwynhendy


54. Mae'r Comisiwn yn argymell cyfuno wardiau etholiadol presennol Llwynhendy a Bynea er mwyn mynd i'r afael â'r lefelau amrywiant oddi wrth y cyfartaledd sirol argymelledig yn ward bresennol Llwynhendy. Mae'r argymhelliad hwn yn gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol, ac yn cyfuno dwy ward etholiadol sy'n rhan o'r un ardal gymunedol. Mae'n golygu bod tri chynghorydd ar gyfer y wardiau yn gyffredinol, sef un yn llai. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y cynrychiolaethau a gafwyd yn erbyn y Cynigion Drafft ac ystyriodd ward â phedwar aelod ar gyfer yr ardal hon, ond nid oedd o'r farn ei bod yn briodol creu ward newydd â phedwar aelod mewn ardal wledig.

55. Bydd 6,757 o etholwyr yn ward etholiadol argymelledig Bynea Llwynhendy, a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 11% yn uwch na'r cyfartaledd sirol argymelledig, sef 2,021. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 7,437 o etholwyr a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 16% yn uwch na'r cyfartaledd sirol argymelledig, sef 2,130.

### Enwau Argymelledig

56. Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw unigol newydd **Bynea Llwynhendy** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw unigol argymelledig ar gyfer y ward newydd.

57. Cynigiodd y Comisiwn yr enw 'Llwynhendy Bynea' yn y Cynigion Drafft. Fodd bynnag, mae polisi enwi'r Comisiwn yn datgan y dylai enwau sy'n rhestrau o leoedd o fewn ward etholiadol gael eu rhestru yn nhrefn yr wyddor. Felly, mae'r Comisiwn yn argymell yr enw 'Bynea Llwynhendy'.


Bynea Llwynhendy
Ward Bynea
Rhan o Gymuned Llanelli Wledig
Ward Pemberton
0
1
cilomedrau
Graddfa 1:30,990
(H) Hawlfraint y Goron hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

## HENDY A THŶ-CROES

58. Mae ward bresennol yr Hendy yn cynnwys ward yr Hendy yng nghymuned Llanedi. Mae ganddi 2,602 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 31% yn uwch na'r cyfartaledd sirol, sef 1,994. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 2,633 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 25% yn uwch na'r cyfartaledd sirol, sef 2,102.

59. Mae ward etholiadol bresennol Tŷ-croes yn cynnwys wardiau Llanedi a Thŷ-croes yng nghymuned Llanedi. Mae ganddi 2,242 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 12% yn uwch na'r cyfartaledd sirol, sef 1,994. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 2,267 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 8% yn uwch na'r cyfartaledd sirol, sef 2,102.

| Enw | Etholwyr 2025 | Cynghorwyr | Cymhareb 2025 | Amrywiant | Etholwyr 2030 | Cymhareb 2030 | Amrywiant 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Hendy | 2,602 | 1 | 2,602 | 31% | 2,633 | 2,633 | 25% |
| Tŷ-croes | 2,242 | 1 | 2,242 | 12% | 2,267 | 2,267 | 8% |
| | | **2** | | | | | |

### Cynigion Drafft

60. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn gyfuno wardiau etholiadol yr Hendy a Thŷ-croes i ffurfio ward etholiadol.

### Cynrychiolaethau

61. Cafodd y Comisiwn dair cynrychiolaeth ynglŷn â wardiau etholiadol yr Hendy a Thŷ-croes yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft gan un Cynghorydd Sir, un Cyngor Cymuned ac un Cynghorydd Cymuned. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

### Argymhellion ffiniau Wardiau Etholiadol

62. Mae'r Comisiwn yn argymell gwneud un newid i'r ffiniau wardiau etholiadol presennol. Mae'r argymhelliad hwn yn cadw nifer bresennol y cynghorwyr ar gyfer yr ardal, sef dau:

- Cyfuno wardiau etholiadol yr Hendy a Thŷ-croes

63. Mae'r Comisiwn yn argymell cyfuno wardiau etholiadol presennol yr Hendy a Thŷ-croes er mwyn mynd i'r afael â'r lefelau amrywiant oddi wrth y cyfartaledd sirol arfaethedig yn ward bresennol yr Hendy. Mae'r argymhelliad hwn yn gwella cydraddoldeb etholiadol yn sylweddol, ac yn cyfuno dwy ward etholiadol sy'n rhan o'r un ardal gymunedol. Bydd dau gynghorydd ar gyfer y wardiau hyn o hyd. Mae'r Comisiwn hefyd yn nodi'r gwrthwynebiad i'r Cynigion Drafft ac ystyriodd yr awgrym amgen i gyfuno wardiau etholiadol presennol yr Hendy a Llangennech, ond nid oedd o'r farn ei bod yn briodol rhannu Cymuned Llanedi. Mae'r Comisiwn o'r farn y dylid cadw cymunedau cyfan, lle bo'n bosibl, er mwyn llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

64. Bydd 4,844 o etholwyr yn ward etholiadol argymelledig yr Hendy a Thŷ-croes, a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 20% yn uwch na'r cyfartaledd sirol argymelledig, sef 2,021. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 4,900 o etholwyr


a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 15% yn uwch na'r cyfartaledd sirol argymelledig, sef 2,130.

## Enwau Argymelledig

65. Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw newydd unigol **Tŷ-croes Yr Hendy** ar gyfer y ward etholiadol. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg fod y fannod yn rhan annatod o'r enw Yr Hendy a dyma'r ffurf safonol a argymhellir yn rhestr Enwau Lleoedd Safonol Cymru.

66. Cynigiodd y Comisiwn yr enw 'Yr Hendy Tŷ-croes' yn y Cynigion Drafft. Fodd bynnag, mae polisi enwi'r Comisiwn yn datgan y dylai enwau sy'n rhestrau o leoedd o fewn ward etholiadol gael eu rhestru yn nhrefn yr wyddor. Felly, mae'r Comisiwn yn argymell yr enw 'Tŷ-croes Yr Hendy'.

# Tŷ-croes Yr Hendy



## GORS-LAS A LLANFIHANGEL ABERBYTHYCH

67. Mae ward etholiadol bresennol Gors-las yn cynnwys cymuned Gors-las. Mae ganddi 4,161 o etholwyr a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 4% yn uwch na'r cyfartaledd sirol, sef 1,994. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 4,294 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 2% yn uwch na'r cyfartaledd sirol, sef 2,102.

68. Mae ward etholiadol bresennol Llanfihangel Aberbythych yn cynnwys cymunedau Llanfihangel Aberbythych a Llangathen. Mae ganddi 1,544 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 23% yn is na'r cyfartaledd sirol, sef 1,994. Mae'r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 1,556 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 26% yn is na'r cyfartaledd sirol, sef 2,102.

| Enw | Etholwyr 2025 | Cynghorwyr | Cymhareb 2025 | Amrywiant | Etholwyr 2030 | Cymhareb 2030 | Amrywiant 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gors-las | 4,161 | 2 | 2,081 | 4% | 4,294 | 2,147 | 2% |
| Llanfihangel Aberbythych | 1,544 | 1 | 1,544 | -23% | 1,556 | 1,556 | -26% |
| | | | | | | | |

### Cynigion Drafft

69. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn gyfuno wardiau etholiadol Llandeilo a Llanfihangel Aberbythych i ffurfio ward etholiadol.

70. Cynigiodd y Comisiwn hefyd gadw ward etholiadol bresennol Gors-las.

### Cynrychiolaethau

71. Cafodd y Comisiwn 10 cynrychiolaeth ynglŷn â ward etholiadol arfaethedig Llandeilo a Llanfihangel Aberbythych yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft gan bedwar Cynghorydd Sir, pedwar Cyngor Cymuned a Thref, un Cynghorydd Tref ac aelod o'r cyhoedd. Mae'r cynrychiolaethau wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

### Argymhellion ffiniau Wardiau Etholiadol

72. Mae'r Comisiwn yn argymell gwneud un newid i'r ffiniau wardiau etholiadol presennol. Mae'r argymhelliad hwn yn cadw nifer bresennol y cynghorwyr ar gyfer yr ardal, sef tri:

- Cyfuno wardiau etholiadol Gors-las a Llanfihangel Aberbythych


73. Mae'r Comisiwn yn argymell cyfuno wardiau etholiadol presennol Gors-las a Llanfihangel Aberbythych er mwyn mynd i'r afael â'r lefelau amrywiant oddi wrth y cyfartaledd sirol argymelledig yn ward bresennol Llanfihangel Aberbythych. Ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y Cynigion Drafft a'r gwrthwynebiad i'r cynnig i gyfuno wardiau etholiadol Llanfihangel Aberbythych a Llandeilo o ganlyniad i nodweddion gwahanol yr ardaloedd. Mae'r Comisiwn yn argymell cadw'r trefniadau presennol ar gyfer Llandeilo, sydd 20% yn uwch na'r cyfartaledd sirol argymelledig, sef 2,021. Mae'r Comisiwn hefyd yn nodi y disgwylir i'r lefel amrywiant gyrraedd 16% erbyn 2030. Rhoddodd y Comisiwn ystyriaeth hefyd i'r awgrym amgen i gyfuno Llanfihangel Aberbythych â ward etholiadol Pen-y-groes, ond nid oedd o'r farn ei bod yn briodol rhannu Cymuned Llandybïe. Mae'r Comisiwn o'r farn y dylid cadw cymunedau cyfan, lle bo'n bosibl, er mwyn llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

74. Bydd 5,705 o etholwyr yn ward etholiadol argymelledig Gors-las a Llanfihangel Aberbythych, a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 6% yn is na’r cyfartaledd sirol argymelledig, sef 2,021. Mae’r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 5,850 o etholwyr a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 8% yn is na’r cyfartaledd sirol argymelledig, sef 2,130.

### Enwau Argymelledig

75. Mae’r Comisiwn yn argymell rhoi’r enw unigol **Aberbythych Gors-las** i’r ward etholiadol. Mae’r Comisiwn wedi ystyried y gynrychiolaeth gan Gyngor Cymuned Gors-las ynglŷn â’r enw unigol arfaethedig Gors-las, a oedd yn datgan y dylai’r ward etholiadol gadw’r enw Saesneg Gorslas. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â’r enw unigol argymelledig ac yn cynghori mai Gors-las yw’r unig ffurf safonol a argymhellir yn Rhestr Enwau Lleoedd Safonol Cymru. Defnyddir cysylltnod mewn enwau lleoedd Cymraeg i helpu i’w hynganu trwy ddangos nad yw’r pwyslais ar y sillaf olaf ond un. Mae’r pwyslais ar sillaf olaf yr enw hwn, felly ceir cysylltnod cyn y sillaf olaf.

# Aberbythych Gors-las



## LLANDYBÏE A PHEN-Y-GROES

76. Mae ward etholiadol bresennol Llandybïe yn cynnwys wardiau Heolddu a Llandybïe yng nghymuned Llandybïe. Mae ganddi 3,472 o etholwyr a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 13% yn is na’r cyfartaledd sirol, sef 1,994. Mae’r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 3,524 o etholwyr a gynrychiolir gan ddau gynghorydd, sydd 16% yn is na’r cyfartaledd sirol, sef 2,102.

77. Mae ward etholiadol bresennol Pen-y-groes yn cynnwys ward Pen-y-groes yng nghymuned Llandybïe. Mae ganddi 2,446 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 23% yn uwch na’r cyfartaledd sirol, sef 1,994. Mae’r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 2,878 o etholwyr a gynrychiolir gan un cynghorydd, sydd 37% yn uwch na’r cyfartaledd sirol, sef 2,102.

| Enw | Etholwyr 2025 | Cynghorwyr | Cymhareb 2025 | Amrywiant | Etholwyr 2030 | Cymhareb 2030 | Amrywiant 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llandybïe | 3,472 | 2 | 1,736 | -13% | 3,524 | 1,762 | -16% |
| Pen-y-groes | 2,446 | 1 | 2,446 | 23% | 2,878 | 2,878 | 37% |
| | | | | | | | |

### Cynigion Drafft

78. Yn ei Gynigion Drafft, cynigiodd y Comisiwn gyfuno wardiau etholiadol Llandybïe a Phen-y-groes i ffurfio ward etholiadol.

### Cynrychiolaethau

79. Cafodd y Comisiwn bedair cynrychiolaeth ynglŷn â ward etholiadol arfaethedig Llandybïe a Phen-y-groes yn ystod y cyfnod ymgynghori drafft gan ddau Gynghorydd Sir, un Cyngor Cymuned ac aelod o’r cyhoedd. Mae’r cynrychiolaethau wedi’u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

### Argymhellion ffiniau Wardiau Etholiadol

80. Mae’r Comisiwn yn argymell gwneud un newid i’r ffiniau wardiau etholiadol presennol. Mae’r argymhelliad hwn yn cadw nifer bresennol y cynghorwyr ar gyfer yr ardal, sef tri:

- Cyfuno wardiau etholiadol Llandybïe a Phen-y-groes


81. Mae’r Comisiwn yn argymell cyfuno wardiau etholiadol presennol Llandybïe a Phen-y-groes er mwyn mynd i’r afael â’r lefelau amrywiant oddi wrth y cyfartaledd sirol argymelledig yn ward bresennol Pen-y-groes. Rhoddodd y Comisiwn ystyriaeth hefyd i’r awgrym amgen i gyfuno Llanfihangel Aberbythych â ward etholiadol Pen-y-groes, ond nid oedd o’r farn ei bod yn briodol rhannu Cymuned Llandybïe. Mae’r Comisiwn o’r farn y dylid cadw cymunedau cyfan, lle bo’n bosibl, er mwyn llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

82. Bydd 5,918 o etholwyr yn ward etholiadol argymelledig Llandybïe a Phen-y-groes, a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sydd 2% yn is na’r cyfartaledd sirol argymelledig, sef 2,021. Mae’r ystadegau 5 mlynedd rhagamcanol (2030) ar gyfer y ward etholiadol yn dangos 6,402 o etholwyr a gynrychiolir gan dri chynghorydd, sy’n hafal i’r cyfartaledd sirol argymelledig, sef 2,130.

### Enwau Argymelledig

83. Mae'r Comisiwn yn argymell yr enw unigol newydd **Llandybïe Pen-y-groes** ar gyfer y ward etholiadol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cytuno â'r enw unigol argymelledig ar gyfer y ward newydd.

84. Cynigiodd y Comisiwn yr enw 'Pen-y-groes Llandybïe' yn y Cynigion Drafft. Fodd bynnag, mae polisi enwi'r Comisiwn yn datgan y dylai enwau sy'n rhestrau o leoedd o fewn ward etholiadol gael eu rhestru yn nhrefn yr wyddor. Felly, mae'r Comisiwn yn argymell yr enw 'Llandybïe Pen-y-groes'.


Llandybïe Pen-y-groes
0
2
cilomedrau
Graddfa 1:44,530
Ward Heolddu
Cymuned Llandybïe
Ward Llandybïe
Ward Pen-y-groes
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2026] OS [100047875]
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

## Pennod 4. TREFNIADAU CANLYNIADOL

1. Bu sawl newid i ffiniau llywodraeth leol yn Sir Gaerfyrddin ers yr arolwg etholiadol diwethaf. Gwnaed y newidiadau canlynol i'r ffiniau cymunedol ond ni weithredwyd y newidiadau canlyniadol ar gyfer y wardiau etholiadol.

2. Mae'r Comisiwn yn argymell y newidiadau canlyniadol i'r ffiniau wardiau etholiadol ar gyfer y wardiau etholiadol hyn er mwyn llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Mae adran hon yr adroddiad yn manylu ar ein hargymhellion ar gyfer y cyfryw newidiadau canlyniadol. Darparwyd yr ystadegau etholiadol a ddefnyddir yn yr adran hon gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

3. Mae pedwar newid i ffiniau cymunedau a wardiau cymunedol, ac mae'n rhaid i'r Comisiwn ystyried y trefniadau wardiau etholiadol o ganlyniad iddynt. Mae'r newidiadau argymelledig i ffiniau wardiau etholiadol fel a ganlyn:

### Ward etholiadol Glyn

4. Argymhellir bod yr un newidiadau canlyniadol yn cael eu gwneud i ward etholiadol **Glyn** ag a wnaed i ffiniau ward etholiadol cymuned Glyn, fel y dangosir yng Ngorchymyn Sir Gaerfyrddin (Llangyndeyrn a Chymunedau Cyfagos) 2025, sef trosglwyddo dau etholwr o Ward Gymunedol Glyn yng Nghymuned Llanelli Wledig i Ward Gymunedol Carwe yn Llangyndeyrn.

| Enw | Nifer y Cynghorwyr | Etholwyr 2025 | Cymhareb 2025 | Amrywiant | Etholwyr 2030 | Cymhareb 2030 | Amrywiant 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Glyn Bresennol** | 1 | 1,756 | 1,756 | -13% | 1,931 | 1,931 | -9% |
| **Glyn Argymelledig** | 1 | 1754 | 1754 | -13% | 1,931 | 1,931 | -9% |

### Ward etholiadol Trimsaran

5. Argymhellir bod yr un newidiadau canlyniadol yn cael eu gwneud i ward etholiadol **Trimsaran** ag a wnaed i ffiniau ward etholiadol cymuned Trimsaran, fel y dangosir ar y map yng Ngorchymyn Sir Gaerfyrddin (Llangyndeyrn a Chymunedau Cyfagos) 2025, sef trosglwyddo 17 o etholwyr o Gymuned Trimsaran i Ward Gymunedol Carwe yn Llangyndeyrn.

| Enw | Nifer y Cynghorwyr | Etholwyr 2025 | Cymhareb 2025 | Amrywiant | Etholwyr 2030 | Cymhareb 2030 | Amrywiant 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Trimsaran Bresennol** | 1 | 1,968 | 1,968 | -3% | 2,023 | 2,023 | -5% |
| **Trimsaran Arfaethedig** | 1 | 1,951 | 1,951 | -4% | 2,023 | 2,023 | -5% |

### Ward etholiadol Pontyberem

6. Argymhellir bod yr un newidiadau canlyniadol yn cael eu gwneud i ward etholiadol **Pontyberem** ag a wnaed i ffiniau ward etholiadol cymuned Pontyberem, fel y dangosir ar y map yng Ngorchymyn Sir Gaerfyrddin (Llangyndeyrn a Chymunedau Cyfagos) 2025, sef trosglwyddo dau etholwr o gymuned Pontyberem i ward gymunedol Llangyndeyrn yng nghymuned Llangyndeyrn.

| Enw | Nifer y Cynghorwyr | Etholwyr 2025 | Cymhareb 2025 | Amrywiant | Etholwyr 2030 | Cymhareb 2030 | Amrywiant 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pontyberem Bresennol | 1 | 2,220 | 2,220 | 10% | 2,254 | 2,254 | 6% |
| Pontyberem Arfaethedig | 1 | 2,218 | 2,218 | 10% | 2,254 | 2,254 | 6% |

## Ward etholiadol Llangyndeyrn

7. Argymhellir bod yr un newidiadau canlyniadol yn cael eu gwneud i ward etholiadol **Llangyndeyrn** ag a wnaed i ffiniau ward etholiadol cymuned Trimsaran, fel y dangosir ar y map yng Ngorchymyn Sir Gaerfyrddin (Llangyndeyrn a Chymunedau Cyfagos) 2025, sef, o ran 21 o etholwyr:

- trosglwyddo 17 o etholwyr o gymuned Trimsaran i ward gymunedol Carwe yng nghymuned Llangyndeyrn
- trosglwyddo dau etholwr o ward gymunedol Glyn yng nghymuned Llanelli Wledig i ward gymunedol Carwe yng nghymuned Llangyndeyrn
- trosglwyddo dau etholwr o gymuned Pontyberem i ward gymunedol Llangyndeyrn yng nghymuned Llangyndeyrn**.**

| Enw | Nifer y Cynghorwyr | Etholwyr 2025 | Cymhareb 2025 | Amrywiant | Etholwyr 2030 | Cymhareb 2030 | Amrywiant 2030 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llangyndeyrn Bresennol | 2 | 4,313 | 2,157 | 7% | 4,460 | 2,230 | 5% |
| Llangyndeyrn Arfaethedig | 2 | 4,334 | 2,167 | 7% | 4,460 | 2,230 | 5% |

## Wardiau etholiadol Llanboidy a Hendy-gwyn ar Daf

8. Argymhellir bod yr un newidiadau canlyniadol yn cael eu gwneud i wardiau etholiadol **Llanboidy** a **Hendy-gwyn ar Daf** ag a wnaed i ffiniau ward etholiadol cymunedau Llanboidy a Hendy-gwyn ar Daf, fel y dangosir ar y map yng Ngorchymyn Sir Gaerfyrddin (Llanboidy a Hendy-gwyn ar Daf) 2025. Nid oes newid i'r etholwyr.

## Pennod 5. YMATEBION I'R ADRODDIAD HWN

1. Ar ôl cwblhau'r arolwg o ardal y prif gyngor a chyflwyno ei argymhellion i Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r trefniadau etholiadol ar gyfer y prif awdurdod yn y dyfodol, mae'r Comisiwn wedi cyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan y Ddeddf.

2. Llywodraeth Cymru sydd bellach yn gyfrifol, os gwêl yn dda, am weithredu'r argymhellion hyn naill ai fel y'u cyflwynwyd neu gydag addasiadau.

3. Dylai unrhyw sylwadau ychwanegol ynglŷn â'r materion yn yr adroddiad hwn gael eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru. Dylid gwneud hyn cyn gynted â phosibl a, sut bynnag, heb fod yn hwyrach na chwe wythnos o'r dyddiad y cyflwynir argymhellion y Comisiwn i Lywodraeth Cymru. Dylid cyfeirio cynrychiolaethau at:

   Yr Is-adran Etholiadau
   Llywodraeth Cymru
   Parc Cathays
   Caerdydd
   CF10 3NQ

   Neu drwy anfon neges e-bost at:

   Etholiadau.elections@gov.wales

4. I gael rhagor o wybodaeth am yr arolwg a'r broses arolygu, gweler tudalen we'r Comisiwn: cdffc.llyw.cymru

## Pennod 6. CYDNABYDDIAETHAU

1. Hoffai'r Comisiwn ddiolch i'r prif gyngor, yr holl gynghorau cymuned a thref a'r cyrff a'r unigolion eraill â buddiant a wnaeth gynrychiolaethau i ni yn ystod y broses o ddatblygu'r argymhellion terfynol hyn. Rydym ni, sydd wedi arwyddo isod, yn cymeradwyo'r adroddiad argymhellion hwn.

**KAREN JONES DL, MBA, MA(HRM), FCIPD (Cadeirydd)**

**MICHAEL IMPERATO (Dirprwy Gadeirydd)**

**DIANNE BEVAN (Aelod)**

**FRANK CUTHBERT (Aelod)**

**GINGER WIEGAND (Aelod)**

**BETHAN WILLIAMS-PRICE (Aelod)**

**FRANCES DUFFY (Aelod)**

**SHEREEN WILLIAMS MBE, OStJ, DL (Prif Weithredwr)**

**Ionawr 2026**

© Hawlfraint CDFfC 2026